

19. Newidiadau trefniadol i'r ysgol

Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad cryno o sut mae newidiadau'n cael eu gwneud i batrwm a threfniadaeth darpariaeth ysgol leol. Mae'r broses lawn a chanllawiau wedi'u nodi yn y [Cod Trefniadaeth Ysgolion](#) ("y Cod").

Cefndir

1. Ni ellir newid patrwm neu drefniadaeth ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin) ond ar ôl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a chyhoeddi hysbysiadau'n caniatáu gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol gan ddilyn trefn a bennir gan y gyfraith.

2. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn pennu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod trefniadaeth ysgolion ("y Cod"). Mae'r Cod yn gosod gofynion y mae'n rhaid i'r rhai a restrir isod weithredu yn unol â hwy ac mae'n cynnwys canllawiau y mae'n rhaid iddynt roi sylw iddynt:

- Gweinidogion Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;
- cynigywyr cynigion trefniadaeth ysgolion o dan Ran 3 o Ddeddf 2013.

3. Mae'r Cod yn gymwys i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir, a ddiffinnir yn adran 98 o Ddeddf 2013 fel ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Nid yw hyn yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion.

4. Caiff awdurdod lleol wneud cynigion i:

- sefydlu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir newydd;
- cau ysgol a gynhelir, ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir;
- gwneud newidiadau rheoleiddiedig i ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) neu i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol, fel y disgrifir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2013.

5. Caiff cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol wneud cynigion i:

- newid categori eu hysgol;
- gwneud newid rheoleiddiedig i'w hysgol (fel y disgrifir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2013);
- cau ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol.

6. Caiff unrhyw berson wneud cynigion i sefydlu ysgol wirfoddol newydd. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r corff crefyddol perthnasol pan fydd y cynnig ar gyfer sefydlu ysgol wirfoddol sydd â chymeriad crefyddol.

7. Ni cheir sefydlu ysgol sefydledig newydd nac ysgol arbennig sefydledig newydd yng Nghymru.

8. Caiff awdurdodau lleol hefyd wneud cynigion i ychwanegu neu gael gwared ar chweched dosbarth mewn ysgolion gwirfoddol a sefydledig, ond dim ond os ydynt wedi cael caniatâd Gweinidogion Cymru i wneud hynny.

9. Rhaid dilyn gweithdrefnau statudol pryd bynnag y bydd awdurdod lleol neu gynigydd arall yn bwriadu gwneud newidiadau sefydliadol i ysgol; mae'r broses a'r canllawiau llawn wedi'u nodi yn y Cod.

10. Pan fo cynnig yn ymwneud â chau ysgol, rhaid i'r cynigydd wirio i weld a yw'r ysgol ar y rhestr o ysgolion a ddynodwyd yn rhai gwledig at y diben hwn yn y Cod. Os felly, rhaid iddynt ddilyn set fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig cau ysgol wledig ac wrth ymgynghori ar a dod i benderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu'r cynnig. Nodir y rhain yn llawn yn y Cod.

11. Awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar y rhan fwyaf o'r cynigion. Fodd bynnag, rhaid i gynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth¹ a'r rhai y mae'r awdurdod lleol perthnasol wedi gwrthwynebu iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

12. Gellir cyfeirio cynigion y mae awdurdod lleol wedi penderfynu eu cymeradwyo neu eu gwrthod at Weinidogion Cymru i'w hystyried gan unrhyw un o'r partïon canlynol:

- i. Awdurdod lleol arall yr effeithir arno gan y cynigion;
- ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n ddarostyngedig i'r cynigion;
- iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig yn amodol ar y cynigion;
- v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Cyrff llywodraethu dros dro

13. Pan fydd cynnig wedi'i gymeradwyo i sefydlu ysgol newydd a gynhelir, bydd yn ofynnol sefydlu:

- corff llywodraethu dros dro cyn corffori'r ysgol
- corff llywodraethu parhaol sy'n weithredol o ddyddiad sefydlu'r ysgol.

Mae gwybodaeth am y broses sydd ei hangen i gyflawni'r naill neu'r llall o'r uchod wedi'i chynnwys ym Mhennod 20 o'r canllaw hwn Ysgolion Newydd a Chyrff Llywodraethu Dros Dro.

¹ Mae cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth os ydynt yn gynigion i sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg chweched dosbarth yn unig, neu i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol a fyddai'n cynyddu neu'n lleihau'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol honno.

Y Gyfraith

[Deddf Stondinau a Threfniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2013: Rhan 3](#)

[Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 \(2il argraffiad\)](#)